# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Cynghorydd: Matthew Voisey** **Ward:Hengastell**

**Plaid: Plaid Geidwadol Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018** ac fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Hengastell ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 19 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â sawl mater arall rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Fy nod yw bod yn gynghorydd lleol da, gan helpu a chefnogi trigolion lle y bo angen. Treuliwyd llawer o hanner cyntaf y flwyddyn yn dysgu'r rôl ac yn ymdrin â materion difrifol y contract gwastraff newydd a'i fethiannau.

Rwy'n cymryd fy maniffesto etholiad o ddifrif ac yn parhau i gyflawni fy addewidion. Cymerais doriad yn fy lwfans cynghorydd, fel yr addawyd, ac rwy'n parhau i wthio am gyfyngiadau cyflymder ar yr A48, a gwella diogelwch.

Rwyf wedi ymdrin â sawl achos cymhleth, gyda chymorth swyddogion er boddhad trigolion.

Mae parcio i drigolion wedi bod yn rhan fawr o'r llwyth gwaith hefyd ac mae'n brosiect parhaus. Diolch i'r holl drigolion a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad.

Rwy'n hoffi cerdded yn yr ardal, cyfarfod â thrigolion a byddaf yn curo ar ddrysau i gyfarfod â chi cyn bo hir.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

O'r diwrnod cyntaf un, rwyf wedi bod yn weithgar wrth fynd i'r afael â melltith cartrefi ac eiddo gwag, gyda rhywfaint o lwyddiant oherwydd bod swyddog cartrefi gwag newydd yn cael ei benodi. Byddaf yn parhau i geisio sicrhau bod cartrefi a adawyd yn segur yn cael eu hailddefnyddio.

Mae gennyf ddiddordeb mewn cynllunio ac rwy'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac rwyf o'r farn fy mod yn gyfranogwr gweithredol mewn cyfarfodydd cynllunio.

Fel aelod o'r wrthblaid, fy nyletswydd yw herio a dwyn y weinyddiaeth i gyfrif, a pheidio â gadael i'r weinyddiaeth wthio materion drwyddo heb graffu a thrafod, fel y digwyddodd yn y gorffennol, er enghraifft gyda'r contract gwastraff.

Fi oedd yr unig aelod i sefyll a brwydro dros gadw toiledau cyhoeddus yng nghyfarfod y gyllideb, gyda chefnogaeth aelodau annibynnol eraill.

Rwy'n gweithio nid er lles fy hun ond dros y rhai rwy'n eu gwasanaethu, a'm hetholodd.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf hefyd yn cynrychioli'r ward ar Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, ac felly rwy'n cynnig cylch gwaith cydgysylltiedig mwy o faint. Rwy'n gweithio gyda'r rhandiroedd ar Heol y Jiwbilî i ddechrau clwb garddio i drigolion, ac mae gennyf ddiddordeb brwd mewn materion lleol, fel mynd i gyfarfodydd PACT.

**Cynghorydd: Matthew Voisey** **Dyddiad: 19 Mai 2018**